| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 13 Medi 2024 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Telerau Swydd Aelodau Annibynnol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â thymhorau swydd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor a'r trefniadau y bydd angen eu gwneud i recriwtio Aelodau Annibynnol newydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Bydd cyfnod dau Aelod Annibynnol yn y swydd yn dod i ben ym mis Mai 2025. Bydd angen gwneud trefniadau i ddechrau'r broses recriwtio ar gyfer Aelodau Annibynnol newydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn ac yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer recriwtio Aelodau Annibynnol newydd.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd, yn darparu ar gyfer cyfansoddiad Pwyllgorau Safonau a thymhorau swydd aelodau annibynnol.

4.2. Rhaid i Bwyllgor Safonau gael dim llai na phump a dim mwy na naw aelod. Rhaid iddo gael o leiaf un aelod sy'n cynrychioli cynghorau tref, dinas a chymuned, aelodau etholedig o'r Cyngor Sir ac aelodau annibynnol. Rhaid i fwyafrif aelodau'r Pwyllgor fod yn aelodau annibynnol.

4.3. Mae gan Bwyllgor Safonau Sir Ddinbych saith aelod gan gynnwys pedwar aelod annibynnol, dau gynghorydd sir ac un aelod cynrychioliadol cyngor cymuned

4.4. Mae tymor aelodau’r cynghorwyr sir ac aelodau cynrychioliadol y cyngor cymuned yn rhedeg tan yr etholiadau llywodraeth leol arferol nesaf.

4.5. Gellir penodi aelodau annibynnol am dymor cychwynnol a gellir eu hailbenodi am un tymor ychwanegol yn olynol. Rhaid i aelodau annibynnol ymddiswyddo ar ddiwedd eu hail dymor.

4.6. O blith aelodau annibynnol presennol y Pwyllgor, mae tri yn eu hail dymor yn y swydd.

4.7. Mae dau o’r cyfnodau hynny yn y swydd, sef rhai’r Cadeirydd a’r Is-gadeirydd i fod i ddod i ben ym mis Mai 2025 a disgwylir i un, sef un Peter Lamb, ddod i ben ym mis Mai 2026.

4.8. Mae Samuel Jones yn ei dymor cyntaf yn y swydd.

4.9. O ystyried bod cyfnod y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd i fod i ddod i ben ym mis Mai 2025, gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y broses recriwtio ar gyfer aelodau Annibynnol newydd o’r Pwyllgor.

4.10. Mae'r broses wedi'i rhagnodi gan y gyfraith. Rhaid cael hysbyseb gyhoeddus, ac yn dilyn hynny, rhaid cael panel recriwtio sy'n gynnwys dim mwy na phum aelod, a dylai un ohonynt fod yn aelod o'r cyhoedd. Yn gynharach eleni, cymeradwyodd y Cyngor gyfansoddiad y panel recriwtio i gynnwys aelod o'r cyhoedd, y ddau gynghorydd sir sy'n aelodau o'r Pwyllgor, cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor a Chadeirydd y Pwyllgor.

4.11. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried amseriad cychwyn y broses recriwtio.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y Cynllun Corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau. Cymeradwyodd y Cyngor gyfansoddiad y panel recriwtio ym mis Chwefror 2024.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y bydd methu â recriwtio Aelodau Annibynnol yn gadael y Pwyllgor heb gworwm.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2021